

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	3 MAWRTH 2022
Pwnc:	MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 3 2021/22
Aelod(au) Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	BETHAN HUGHES OWEN – RHEOLWR GWASANAETHAU CYFRIFEG
Ffôn:	01248 752663
E-bost:	BethanOwen2@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	AMHERTHNASOL

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

1. Ar 9 Mawrth 2021, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2021/22 gyda gwariant net y gwasanaethau o £147.420m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.333m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau eraill na chynlluniwyd ar eu cyfer. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei gostwng gan £0.121m i £1.514m. Defnyddiwyd £0.300m o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei gosod gyda'r cynnydd o 2.75% y cytunwyd arno yn y Dreth Gyngor.
2. Yn wahanol i gyllidebau blynyddoedd blaenorol, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys unrhyw ofynion i wasanaethau wneud arbedion. Roedd y cynnydd o 3.4% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru i'w groesawu. Ni fu'n bosib i Lywodraeth Cymru roi unrhyw arwydd o lefel arfaethedig y cyllid tu hwnt i 2021/22 oherwydd i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU gael ei ganslo yn sgil delio â'r pandemig Coronafeirws.
3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 3, 31 Rhagfyr 2021. Mae'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan yn cael ei chrynhoi hefyd. Wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae mwy o sicrwydd ynglŷn â'r rhagolygon o gymharu â chwarter 2, er y dylid nodi y gall y sefyllfa newid yn gyflym, yn sgil yr argyfwng presennol, wrth i'r Cyngor barhau i ymateb i'r pandemig.
4. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon cyflwynwyd tri hawliad i Lywodraeth Cymru, am gyfanswm o £3.418m, ar gyfer gwariant ychwanegol a gafwyd yn chwarter 3 oherwydd yr argyfwng Covid, a derbyniwyd swm o £2.165m. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd rhagor o gyllid yn cael ei ryddhau i wneud yn iawn am golledion incwm yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, ond nid ystyriwyd hyn yn y rhagolwg. Bydd derbyn y cyllid ychwanegol hwn yn gwella sefyllfa derfynol rhai gwasanaethau o gymharu â'r rhagolwg hwn.
5. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2021/22, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r gronfa Dreth Gyngor, yw tanwariant o £3.528m. Mae hyn yn cyfateb i 2.40% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2021/22. Fodd bynnag, gallai cynnydd mewn costau, gan gynnwys dyfarniad cyflog posib o fwy na'r 1.75% y caniatwyd ar ei gyfer yn y rhagolwg, a'r posibilrwydd y bydd mwy o alw am wasanaethau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, olygu nad yw'r sefyllfa refeniw derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cystal ag a nodir yn yr adroddiad hwn.
6. Argymhellir:-
 - (i) Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwylidig ar gyfer 2021/22. Mae'r sefyllfa hon yn ddibynnol ar gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r golled incwm ariannol a'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r Coronafeirws;

- (ii) Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
- (iii) Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i Arbed yn Atodiad CH;
- (iv) Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ei hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae'r adroddiad hwn at ddibenion monitro yn unig ac fe'i defnyddir ar y cyd ag adroddiadau eraill i osod y strategaeth ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Wrth osod y gyllideb flynyddol, bydd yr effaith ar anghenion tymor hir yr Ynys yn cael ei asesu.
2	A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?-	Amherthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy?	Amherthnasol
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:-	Ymgynghorwyd â dinasyddion Ynys Môn fel rhan o broses gosod cyllideb 2021/22 ac ymgynghorir â nhw ynghylch cyllidebau yn y dyfodol.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Amherthnasol
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Amherthnasol
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Amherthnasol

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Mae'r UDA wedi derbyn copi o Atodiad B o'r adroddiad yma
2	Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r UDA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol

8	Sgriwtini	Adolygwyd y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter 2 gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2022.
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol
F – Atodiadau:		
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad A – Adroddiad Alldro Dros Dro ar gyfer 2021/22 • Atodiad B – Tabl Alldro Dros Dro 2021/22 • Atodiad C – Crynodeb o sefyllfa Cyllidebau wrth Gefn ar gyfer 2021/22 • Atodiad CH – Adolygiad o brosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22 • Atodiad D – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2021/22 • Atodiad DD - Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2021/22 		
Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth):		
Cyllideb Refeniw 2021/22 (fel y'i hargymhellwyd gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2021 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 9 Mawrth 2021).		

MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3

1. Balans Cyffredinol

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig gwerth £14.079m a chronfeydd wrth gefn ysgolion gwerth £3.974m. Y balans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, yn dilyn archwilio'r alldro 2020/21, oedd £11.437m. Roedd hyn yn well na'r balans agoriadol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, 2019/20, pan oedd y balans cyffredinol yn £7.060m. Cyfrannodd y tanwariant o £4.016m at hyn, yn ogystal â symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oedd eu hangen.

Mae sefyllfa bresennol balansau Cyffredinol ar ddiwedd y chwarter fel a ganlyn:-

Pwyllgor Gwaith	Swm £m	Pwrpas
Balans agoriadol drafft	(11.437)	Cronfa wrth gefn gyffredinol wedi'i harchwilio ar 31 Mawrth 2021
Atgyweirio Harbwr Amlwch	0.050	Penderfyniad dirprwyedig gan y Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio – Cyllid
Trosglwyddiadau i mewn o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig nad oedd eu hangen	(0.643)	
Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaethau	1.376	Creu Cronfeydd Wrth Gefn Gwasanaeth yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 12 Gorffennaf 2021
Atgyweirio To Canolfan Addysg y Bont	1.500	Gwaith Atgyweirio To yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar 29 Gorffennaf 2021
Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd Newydd	0.100	Sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd – Costau sefydlu
Atgyweirio To Canolfan Addysg y Bont	1.500	Gwaith Atgyweirio To yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 11 Chwefror 2022
Balans Cyffredinol Diwygiedig Cronfa'r Cyngor	(7.554)	

Yr alldro a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2021/22 yw tanwariant o £3.528m. Os yw'r rhagolwg hwn yn gywir, byddai'r un cynnydd i'w weld ym malansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd gwaith yn cael ei wneud fel rhan o'r broses cau'r llyfrau i benderfynu faint o'r tanwariant fydd yn cael ei ychwanegu at y balansau cyffredinol, cronfeydd wrth gefn gwasanaethau a chronfeydd wrth gefn clustnodedig. Oherwydd yr ansicrwydd presennol ynghylch y galw am wasanaethau, mae'r Swyddog Adran 151 wedi argymhell i'r Pwyllgor Gwaith y dylai lefel y balansau cyffredinol fod yn uwch na'r lefel arferol o 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net, ac y byddai'n ddoeth i'r Cyngor gadw o leiaf £9m fel Balansau Cyffredinol ar gyfer 2022/23. Os bydd lefel y tanwariant a ragwelir ar ddiwedd y trydydd chwarter yn cael ei adlewyrchu yn yr alldro terfynol ar ddiwedd y flwyddyn, yna bydd hyn yn gwella cadernid ariannol y Cyngor ymhellach.

2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

2.1 Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod, a'r alldro a ragwelir ar eu cyfer, wedi'u nodi yn Atodiad B. Rhagwelir tanwariant o £2.315m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2022. Amcangyfrifir tanwariant o £0.591m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd £0.113m o Dreth Gyngor safonol ychwanegol yn cael ei chasglu. Yn ogystal â'r gwarged bychan a ragwelir ar y Dreth Gyngor safonol, mae gwarged ychwanegol o £0.509m ar Bremiwm y Dreth Gyngor yn gwella'r sefyllfa ariannol hyd yn oed ymhellach. Ar hyn bryd, rhagwelir y bydd tanwariant o £3.528m ar y gyllideb refeniw, sydd yn cyfateb i 2.40% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

2.2 Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (oddeutu £100k neu uwch):-

Tabl 1

	(Tan)/Gorwariant £'000
Dysgu	(348)
Oedolion	(231)
Gwasanaethau Plant	(193)
Priffyrdd	(200)
Gwastraff	(560)
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	(319)
Trawsnewid	(135)
Adnoddau	(217)
Costau Corfforaethol a Democrataidd	(164)
Cyllid Corfforaethol	(591)
Costau na ellir eu rheoli nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb – yswiriant, costau cyfalaf pensiwn a dyledion drwg	200
Cyllido	(623)
Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k)	(147)
Cyfanswm Amrywiant - gor/(tan) wariant	(3,528)

3. Esboniad o'r Amrywiadau Sylweddol

3.1 Dysgu Gydol Oes

3.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllidebau ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion unigol. Ar hyn o bryd, mae balansau cronfeydd wrth gefn ysgolion yn £3.974m, o gymharu â £197k ar 31 Mawrth 2020. Fodd bynnag, derbyniodd ysgolion grantiau gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth, tuag at gostau a gafwyd eisoes, gan olygu na wariwyd eu cyllidebau craidd. Yn ogystal, derbyniwyd rhywfaint o gyllid grant ar yr amod ei fod yn cael ei wario yn 2021/22.

Addysg Ganolog

3.1.2 Roedd tanwariant o £59k (4.32%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 3. Rhagwelir tanwariant o £299k (6.5%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae nifer o'r cyllidebau hyn yn cael eu harwain gan y galw.

3.1.3 Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Rhagwelir tanwariant o £186k (£223k yn Chwarter 2) ar ddarparu prydau ysgol. Dyfarnwyd contract newydd sy'n costio llai ac roedd y contract newydd i fod i gychwyn ym mis Medi 2021. Bydd hyn yn arwain at danwariant, ond, mae hyn yn cael ei wrthbwysu'n rhannol gan gynydd yn nifer y disgyblion sy'n dewis prydau ysgol am ddim ac sydd wedi arwain at gynydd yn y gost. Mae'r contract prydau ysgol newydd wedi caniatáu i'r Awdurdod ostwng pris pryd ysgol o £2.50 i £2.20.
- Mae'r symudiad yn y lleoliadau allsirol o 2020/21 i 2021/22 yn ymwneud â phedwar plentyn a adawodd y gwasanaeth (oherwydd iddynt droi'n 16+ neu am eu bod wedi dychwelyd i leoliadau ar Ynys Môn) a chafwyd chwe lleoliad newydd hyd yma. Rhagwelir tanwariant o £544k ar leoliadau allsirol, sy'n debyg i'r ffigur a ragwelwyd yn chwarter 2 (£545k). Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, gallai nifer y plant sydd angen lleoliadau allsirol i'r sir barhau i godi, gan effeithio ar y tanwariant a ragwelir, gan fod hon yn gyllideb sy'n cael ei harwain gan y galw.
- Rhagwelir gorwariant o £58k (£66k yn chwarter 2) ar y Clwb Gofal Plant. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw a, gyda mwy o rieni'n gweithio gartref a rhai cyfyngiadau Covid yn parhau i fod ar waith, mae'r galw am y ddarpariaeth hon wedi gostwng.

- Ar hyn o bryd, rhagwelir gorwariant o £297k ar gludiant ysgol ar ddiwedd y flwyddyn. Y rhagolwg ar ddiwedd chwarter 2 oedd gorwariant o £178k. Mae'r galw am y gwasanaeth hwn wedi cynyddu ac er y dyrannwyd cyllideb ychwanegol, mae'r rhagolwg yn parhau i ddangos gorwariant sylweddol. Ychwanegwyd llwybr bws newydd i'r gwasanaeth, bu'n rhaid aildendro rhai contractau, ac roedd costau'r contractau newydd yn uwch na'r rhai gwreiddiol. Yn ogystal â hyn, mae nifer o'r contractau wedi cael eu dychwelyd i'r Awdurdod gan nad oedd modd eu cyflawni.

3.1.4 Diwylliant

- 3.1.4.1** Roedd tanwariant o £253k (23.25%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod, o gymharu â £168k yn chwarter 2. Yr alldro a ragwelir eleni yw tanwariant o £49k (4.06%) (£43k yn chwarter 2). Mae swyddi gwag yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a disgwylir iddynt arwain at danwariant o £94k ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae ymarfer recriwtio'n cael ei gynnal ar hyn o bryd i lenwi'r swyddi gwag hyn, a disgwylir y bydd staff wedi'u penodi erbyn mis Chwefror 2022. Y rhagolwg presennol ar gyfer yr Oriol yw gorwariant o £30k o ganlyniad i beidio â gwireddu incwm a phwysau ar y cyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw. Mae'r gwasanaeth Archifau'n rhagweld gorwariant o £10k, sydd yn cyd-fynd â'r hyn a nodwyd yn chwarter 2.

3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

- 3.2.1** Roedd gorwariant o £1,309k (6.88%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod. Yr alldro a ragwelir yw tanwariant o £231k (1.72%), ond yn chwarter 2 y rhagolwg oedd gorwariant o £477k (1.72%) ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn wahaniaeth o £708k o un cyfnod adrodd i'r llall. O'r £708k, mae £545k yn ymwneud â chyllid ychwanegol, £102k yn ymwneud ag anfonebau yr oedd anghydfod yn eu cylch ond sydd wedi cael eu talu erbyn hyn ac mae £61k yn ymwneud â thanwariannau amrywiol ar draws y gwasanaeth.

- 3.2.2** Mae'r elfennau sy'n gyfrifol am yr amrywiad yn yr alldro fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Rhagwelir tanwariant o £233k, sef gwahaniaeth o £479k o gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn chwarter 2 (gorwariant o £233k). Mae nifer o elfennau yn gor a thanwario yn y Gwasanaeth, ond, y newid mwyaf ers y rhagolwg yn chwarter 2 yw bod £279k o incwm grant ychwanegol wedi'i dderbyn. Mae gostyngiad o £136k yn y rhagolwg ar gyfer gofal cartref oherwydd y galw, mae gostyngiad cyffredinol o £53k mewn costau gofal preswyl ac addaswyd ffigyrau gofal nyrsio preifat i bobl hyn i adlewyrchu'r galw ac o'r herwydd, mae cynnydd o £166k yn y costau. Mae'r rhan hon o'r gwasanaeth hefyd wedi derbyn £150k o incwm annisgwyl gan fod anfonebau y disgwylid iddynt gael eu dileu wedi cael eu talu erbyn hyn.
- Anableddau Corfforol (AC): Mae'r ddarpariaeth yn rhagweld gorwariant o £199k ar gyfer y flwyddyn, o gymharu â £144k a nodwyd yn chwarter 2. Y prif wahaniaethau a nodwyd o chwarter 2 i chwarter 3 yw bod gostyngiad o £14k yng nghostau Gofal Cartref, tra bod cynnydd o £14k mewn taliadau uniongyrchol. Mae cynnydd o £76k mewn costau asiantaeth, ond derbyniwyd grant ychwanegol o £22k hefyd. Mae nifer o elfennau eraill yn tan a gorwario yn y maes hwn sy'n cyfrannu at y newid yn y rhagolwg o un adroddiad i'r llall.
- Anableddau Dysgu (AD): Rhagwelir gorwariant o £783k erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn ostyngiad o £32k o gymharu â'r chwarter blaenorol. Mae'r gostyngiad yma o ganlyniad i gynnydd o £43k mewn costau Gofal Cartref a chynnydd o £6k mewn taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, derbyniwyd incwm ychwanegol o £80k trwy grantiau.
- Iechyd Meddwl (IM): Mae'r rhagolwg ar gyfer y gwasanaeth wedi gostwng o orwariant o £62k yn chwarter 2 i danwariant o £14k yn chwarter 3. Mae nifer o resymau dros y symudiad hwn, ond mae'r newidiadau mwyaf nodedig yn ymwneud â chostau gofal preswyl preifat, costau cam-drin sylweddau a chostau gofal cartref seibiant lle gwelwyd gostyngiad o £30k yr un.
- Uned Ddarparu: Mae'r maes hwn yn rhagweld tanwariant o £778k ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £602k yn chwarter 2. Mae'r tanwariant hwn yn rhannol oherwydd problemau recriwtio oherwydd y pandemig Covid19. Y prif ffactor cyfrannol yn y maes hwn yw grant ychwanegol o £149k a dderbyniwyd.

3.3 Gwasanaethau Plant

- 3.3.1** Roedd gorwariant o £90k (0.87%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir tanwariant o £193k (-1.72%) ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â gorwariant o £583k yn chwarter 2.
- 3.3.2** Ar ddiwedd chwarter 2, roedd disgwyl gorwariant o £796k yn y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal. Y rhagolwg yn awr, yn chwarter 3, yw gorwariant o £365k, mae hyn yn wahaniaeth o £431k o un cyfnod adrodd i'r llall. Mae'r gyllideb hon yn cael ei harwain gan y galw ac mae 3 lleoliad nad oedd yn bodloni gofynion cronfa caledi Llywodraeth Cymru yn wreiddiol yn gymwys erbyn hyn oherwydd newid mewn amgylchiadau. Yn dilyn adolygiad o'r holl gostau Plant sy'n Derbyn Gofal, nodwyd bod lleoliad arall yn gymwys erbyn hyn a gellir ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 2021. Derbyniwyd pedwar ffrwd cyllido newydd hefyd ym mis Hydref a Thachwedd 2021 a oedd yn dod i gyfanswm o £489k ac mae hyn wedi cael effaith ar y gwahaniaeth o un cyfnod adrodd i'r llall.

3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

- 3.4.1** Roedd gorwariant o £39k (2.54%) yn y gwasanaeth hwn ar ddiwedd chwarter 3 ac mae'r rhagolwg alldro yr un fath ag ar gyfer y chwarter blaenorol, sef cyllideb gytbwys. Y meysydd sy'n achosi'r pryder mwyaf yw digartrefedd ac atal digartrefedd, gyda gorwariant o £50k ar atal digartrefedd. Fodd bynnag, hawliwyd £444k ar gyfer 9 mis cyntaf y flwyddyn ariannol ar atal a digartrefedd. Mae'r rhagolwg yn seiliedig ar barhad y gronfa galedi i gyllido ar yr un lefel ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.

3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

3.5.1 Economaidd a Chymunedol (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

- 3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £130k (18.09%) yn y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod, ond rhagwelir gorwariant o £4k (7.33%) ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £47k (2.50%) yn chwarter 2.
- 3.5.1.2** Disgwylir gorwariant o £26k yn elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â gorwariant o £5k a rhagwelwyd ar ddiwedd 2. Mae hyn, yn rhannol, oherwydd y targed incwm ar gyfer staffio prosiectau megis Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol. Nid yw'r costau hyn yn cael eu cyllido o ffynonellau allanol bellach ac, heb y ffynonellau cyllido hyn, ni fydd y disgwyliadau incwm yn y gyllideb yn cael eu cyflawni, gan arwain at ddiffyg o £72k. Disgwylir i ad-drefnu uwch reolwyr arwain at danwariant o £85k a fydd yn gwneud yn iawn am y diffyg yn yr incwm. Yr elfennau eraill sy'n creu pwysau yn yr adain yw cyllidebau cyfleusterau'r ganolfan, dylunio graffeg a thanysgrifiadau sydd, gyda'i gilydd, yn debygol o gynhyrchu gorwariant o £44k.
- 3.5.1.3** Rhagwelir tanwariant o £62k yn yr adain Cyrchfan erbyn diwedd y flwyddyn o gymharu â thanwariant o £35k ar ddiwedd chwarter 2. Oherwydd y cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol yn ystod yr haf, mae mwy o bobl wedi bod yn treulio eu gwyliau yn y DU gan olygu y bu ein hatyniadau arfordirol yn brysurach nag erioed a chyflawnwyd targedau incwm yr adain Forwrol ar gyfer cofrestru a lansio badau erbyn diwedd Ch1.
- 3.5.1.4** Mae'r pwysau blynyddol ar dargedau incwm Cefn Gwlad yn debygol o godi'i ben eto, ac mae ymgynghorwyr yn cynnal adolygiad o'r defnydd o'r Fenai. Gyda'i gilydd, disgwylir i hyn arwain at orwariant o £30k yn y maes hwn.

Mae cyllidebau twristiaeth wedi tanwario yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf a dyrannwyd cyllid ychwanegol i reoli ymwelwyr. Cafwyd problemau recriwtio mewn perthynas ag un swydd wag. Mae gwarged o £70k yn cael ei ragweld yn awr.

3.5.1.5 Ar hyn o bryd, mae'r adain Hamdden yn rhagweld gorwariant o £40k ar ddiwedd y flwyddyn, ond mae hyn yn well na'r rhagolwg o £79k ar ddiwedd chwarter 2. Nid oes caffis yn y canolfannau hamdden erbyn hyn ond mae'r disgwyliadau incwm yn parhau. Casglwyd llai o daliadau debyd uniongyrchol oherwydd i'r pyllau fod ar gau. Mae hon yn broblem leol ac ni ellir hawlio am hynny trwy'r gronfa galedi. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd tanwariant o thua £70k ar staff canolfannau hamdden, yn rhannol oherwydd newidiadau yn nhelerau ac amodau hyfforddwyr a dyma'r rheswm am y gostyngiad yn y gorwariant a ragwelir. Mae ased y Cwrs Golff wedi cael ei werthu yn awr ac, felly, ni fydd unrhyw wariant pellach yn y maes hwn. Mae pwysau'n cynyddu ar gyllidebau trwsio a chynnal a chadw o ganlyniad i gostau prynu uwch. Mae'n debygol y bydd tua £20k o orwariant ar y gyllideb hon.

3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

3.5.2.1 Mae tanwariant o £481k (27.27%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £319k (14.20%) ar alldro, o gymharu â thanwariant o £108k (4.81%) a ragwelwyd ar ddiwedd chwarter 2.

3.5.2.2 Roedd tanwariant o £141k (8.93%) yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod. Yr alldro a ragwelir yw tanwariant o £172k (tanwariant o £95k yn chwarter 2). Y prif wahaniaeth o gymharu â'r alldro a ragwelwyd yn chwarter 2 yw bod swyddi gwag yn fater parhaus ac, er bod ymgyrch recriwtio yn cael ei chynnal, mae'n anodd rhagweld pryd fydd y swyddi hyn yn cael eu llenwi, os o gwbl. Materion staffio sy'n gyfrifol am y newid yn y rhagolwg o chwarter 2 i chwarter 3.

3.5.2.3 Roedd tanwariant o £341k yn yr adain Cynllunio ar ddiwedd y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £147k ar ddiwedd y flwyddyn, er bod disgwyl tanwariant o £13k ar ddiwedd y flwyddyn yn chwarter 2. Y prif wahaniaeth o chwarter 2 i chwarter 3 yn yr adain yma yw y derbyniwyd cais cynllunio mawr ym mis Hydref 2021 a dyma'r prif reswm am y newid yn y rhagolwg. Mae swyddi gwag yn yr adain Rheoli Cynllunio hefyd, a rhagwelir tanwariant o £42k erbyn diwedd y flwyddyn.

3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

3.6.1 Priffyrdd

3.6.1.1 Roedd tanwariant o £34k (5.91%) yn y gwasanaeth hwn am y cyfnod. Rhagwelir y bydd tanwariant o £200k (3.17%) ar ddiwedd y flwyddyn, sydd ychydig yn uwch na'r tanwariant o £128k (2.03%) a nodwyd yn chwarter 2. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r adeiniau yn y gwasanaeth Priffyrdd yn tanwario ar ddiwedd y flwyddyn. Y rhai mwyaf nodedig yw Cefnogaeth Adrannol £70k, fydd yn deillio o arbedion ar gostau staff, disgwylir y bydd incwm gwaith stryd £90k yn uwch na'r gyllideb incwm. Mae Rheoli Datblygu wedi cynhyrchu mwy o incwm na'r disgwyl ac felly, mae'r adain yn rhagweld tanwariant o £60k. Mae Cludiant Cymunedol Môn yn rhagweld tanwariant o £50k hefyd. Mae hyn oherwydd bod llai o alw am y gwasanaeth o ganlyniad i'r pandemig Covid a'r cyfyngiadau. Fodd bynnag, mae disgwyl gorwariant o £100k yn y gyllideb gwaith erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir y bydd incwm meysydd parcio £20k yn uwch na'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n bwysig tynnu sylw at Reoli Fflyd gan fod llai o ddefnydd yn cael ei wneud o gerbydau'r Awdurdod ar hyn o bryd ac felly nid yw'r gwasanaeth yn gallu codi tâl ar wasanaethau eraill am y gost. Ar hyn o bryd mae gorwariant o £110k yn erbyn y gwasanaeth Priffyrdd. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd gan bob adran arall danwariant cyfatebol ar gyfer rheoli fflyd.

3.6.2 Gwastraff

3.6.2.1 Roedd tanwariant o £673k (10.72%) yn y gwasanaeth Gwastraff yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £560k (6.39%) erbyn alldro. Yn chwarter 2, rhagwelwyd tanwariant o £480k.

3.6.2.2 Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gor a thanwariant mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth i wneud yn iawn am hynny. Mae'r amrywiadau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £360k ar Gasglu Gwastraff, sy'n cynnwys costau'r contract casglu gwastraff newydd. Mae'r rhagolwg o danwariant o £50k ar gyfer ailgyrchu yn chwarter 2 wedi cynyddu i danwariant o £170k yn chwarter 3 oherwydd bod incwm gwastraff gwyrdd yn uwch na'r targed a bu'n rhaid gohirio prosiectau a gynlluniwyd oherwydd ansicrwydd tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Disgwylir gorwariant o £130k mewn perthynas â Gorsaf Drosglwyddo Penhesgyn erbyn diwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd costau staffio.

3.6.3 Eiddo

3.6.3.1 Sefyllfa'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod yw tanwariant o £98k (13.37%), a'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yw gorwariant o £5k (0.51%). Yn chwarter 2, roedd gorwariant o £5k (0.51%) yn cael ei ragweld ar ddiwedd y flwyddyn hefyd.

3.6.3.2 Mae sefyllfa nifer o benawdau cyllideb yn amrywio, gyda rhai'n dangos gorwariant tra bod eraill yn tanwario. Nid oes gwahaniaeth sylweddol o gymharu â'r hyn a nodwyd yn chwarter 2.

3.7 Trawsnewid

3.7.1 Roedd gorwariant o £236k yn y swyddogaeth Trawsnewid ar ddiwedd y cyfnod.

3.7.1.1 Roedd gorwariant o £30k (2.86%) yn y swyddogaeth AD ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £91k (6.60%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r tanwariant a ragwelir yn deillio o gyllidebau hyfforddi canolog.

3.7.1.2 Roedd tanwariant o £318k (12.39%) yn yr adain TGCh ar gyfer y cyfnod a disgwylir gorwariant o £18k (0.56%) erbyn diwedd y flwyddyn. Yn chwarter 2, y rhagolwg oedd gorwariant o £102k ar ddiwedd y flwyddyn. Mae holl gyllidebau meddalwedd a chaledwedd y Cyngor, ac eithrio ysgolion, wedi cael eu canoli ac maent yn cael eu rheoli gan yr adain TGCh yn awr. Erbyn hyn, y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y gyllideb meddalwedd canolog yw gorwariant o £132k. Rhagwelir tanwariant net o £114k ar staffio a thrwyddedau meddalwedd.

3.7.1.3 Roedd tanwariant o £52k (9.64%) yn yr adain Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod, a disgwylir tanwariant o £135k (15.06%) ar ddiwedd y flwyddyn. Priodolir hyn i arbedion ar gostau cyflogau yn y tîm Trawsnewid Corfforaethol a Chyswilt Môn, ynghyd â thanwariant o £101k ar gyfer Partneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)

3.8.1 Mae tanwariant o £62k (2.33%) yng nghyllideb y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £217k (6.71%) ar alldro, o gymharu â £144k (4.45%) yn chwarter 2.

3.8.2 Mae tanwariant o £29k ar Refeniw a Budd-daliadau oherwydd na chafodd swyddi gwag a secondiadau eu llenwi. Rhagwelir tanwariant bychan o £10k ar gyfer y tîm Cyfrifeg. Mae Archwilio Mewnol yn rhagweld tanwariant o £53k oherwydd swyddi gwag yn ystod y flwyddyn sydd wedi cael eu llenwi bellach. Mae tanwariant o £125k yn yr adain Gaffael oherwydd cynlluniau pwrcasu, h.y. cyllidebau pwrcasu canolog, ad-daliadau ar gardiau caffael a llai o alw am rai meysydd gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y cyllidebau caffael canolog oherwydd bod mwy o staff yn gweithio gartref (papur, llungopiwyd, defnyddiau ysgrifennu, dodrefn).

3.9 Busnes y Cyngor

3.9.1 Roedd tanwariant o £65k (5.27%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £57k (0.70%) ar alldro o gymharu â gorwariant o £12k (0.70%) yn chwarter 2.

3.9.2 Disgwylir gorwariant o £1k yn y Gwasanaeth Cyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf oherwydd y defnydd o staff cyfreithiol asiantaeth i gyflenwi ar gyfer swyddi gweigion/absenoldebau staff. Mae incwm pridiannau tir yn uwch na'r proffil hefyd. Rhagwelir y bydd pob un o swyddogaethau'r Gwasanaethau Democraidd yn tanwario, gyda'r tanwariant mwyaf yn y Gwasanaethau Pwyllgor (£48k) oherwydd arbedion ar dreuliau staff a'r defnydd o ymgynghorwyr.

3.10 Costau Corfforaethol a Democraidd

3.10.1 Roedd tanwariant o £31k (1.13%) ar gyfer y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £164k (5.45%) ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelwyd tanwariant o £158k (5.25%) yn chwarter 2.

3.10.2 Rhagwelir tanwariant o £44k ar Gymorth i Aelodau a Threuliau Aelodau, fel yr adroddwyd yn chwarter 2. Mae cyfyngiadau'r pandemig wedi arwain at danwariant sylweddol ar y cyllidebau teithio, hyfforddi a chynadleddau.

3.10.3 Yn gyffredinol, mae'r cyllidebau corfforaethol yn dangos tanwariant o £96k. Mae tanwariant o £92k ar ffioedd archwilio grantiau a £52k ar daliadau pensiwn hanesyddol i'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, roedd gorwariant o £25k ar Gwnsela Staff, nid oes cyllideb ar gyfer y gwariant hwn. Disgwylir y bydd cyfraniadau pensiwn eilradd £37k yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol. Mae meysydd amrywiol eraill yn tan a gorwario o fewn y penawdau yn y gyllideb ar gyfer yr adain hon sy'n gwrthbwysu ei gilydd.

3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

3.11.1 Roedd tanwariant o £25k (5.22%) yn y swyddogaeth am y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £27k (4.25%) ar alldro. Mae'n ymwneud â'r gyllideb sy'n weddill yn dilyn ailstrwythuro'r tîm rheoli yn 2019/20 a mân danwariannau ar gludiant a nwyddau swyddfa cyffredinol.

4. Cyllid Corfforaethol (gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

4.1 Disgwylir tanwariant o £591k ar Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, ar ddiwedd y flwyddyn.

4.2 Roedd cyllideb 2021/22 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, ac roedd eu cyfanswm yn £1,333k. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn yn cael eu trosglwyddo i gyllidebau Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae Atodiad C yn rhoi crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ac mae'n dangos bod £204k wedi'i drosglwyddo'n barod i gyllidebau a gymeradwywyd.

4.3 Mae'r gyllideb cyllido cyfalaf yn cynnwys tair elfen: y swm a gedwir wrth gefn ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (Darpariaeth Refeniw Isaf - DRI), llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol a llog a dderbynnir ar falansau arian parod yng nghyfrifon banc y Cyngor a buddsoddiadau eraill. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf, ac yn arbennig rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn golygu bod angen i'r Cyngor fenthyca llai ac mae hyn yn ei dro wedi arwain at DRI a chostau llog is. Yn ystod y pandemig, cadwodd y Cyngor falansau arian parod uwch na'r arfer, er bod elw ar fuddsoddiadau'n isel iawn (llai na 0.2% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn). O ganlyniad, rhagwelir tanwariant o £536k yn y gyllideb Cyllido Cyfalaf.

5. Casglu'r Dreth Gyngor

5.1 Mae cyllideb y Gronfa Dreth Gyngor yn cael ei phenderfynu gan ddefnyddio amcangyfrif o'r ddyled y gellir ei chasglu ar gyfer y flwyddyn bresennol yn unig, yn seiliedig ar ffigwr sylfaen y dreth a bennwyd ym mis Tachwedd 2020. Nid yw cynnwys ôl-ddyledion blynyddoedd blaenorol a gasglwyd, addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau person sengl, eiddo yn trosglwyddo i drethi busnes ac ati), newidiadau yn sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn bresennol na'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddiethriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol Cronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Mae Covid19 wedi cael effaith hefyd ar gasglu'r Dreth Gyngor ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg wedi cael ei gynyddu i adlewyrchu'r effaith hwn. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £113k yn well na'r gyllideb.

5.2 Dyluniwyd premiwm y Dreth Gyngor i annog perchnogion eiddo gwag ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i ddefnydd cyffredinol ac, o'r herwydd, mae risg y gall nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm ostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn. Er mwyn lliniaru'r risg, mae sylfaen y dreth ar gyfer eiddo sydd â phremiwm arnynt yn cael ei osod ar 80% ac, os nad yw nifer yr eiddo sy'n talu'r premiwm yn gostwng yn sylweddol, yna bydd y gyllideb yn creu gwarged. Unwaith eto, mae trosglwyddo eiddo o'r gofrestr eiddo domestig i'r gofrestr trethi busnes wedi gostwng y premiwm sy'n daladwy ar ail gartrefi ond, er bod eiddo wedi cael eu trosglwyddo, arhosodd niferoedd cyffredinol ail gartrefi yn weddol gyson ac, o ganlyniad, rhagwelir gwarged o £509k ar gyllideb premiwm y Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

6. Arbedion Cyllidebol 2021/22

6.1 Nid oedd angen unrhyw Arbedion Cyllidebol gan y gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22.

7. Buddsoddi i Arbed

7.1 Cyflwynwyd rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £894k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2021/22. Mae'r holl brosiectau wedi datblygu i wahanol raddau, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nac eraill, er bod y pandemig Coronafeirws wedi effeithio ar gynnydd y prosiectau hyn. Gellir gweld manylion llawn am wariant a chynnydd pob prosiect yn Atodiad CH. Lle na fydd prosiectau wedi'u cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddant yn parhau i 2022/23 a bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael yn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

8.1 Yn ystod y flwyddyn hyd yma, gwariwyd £877k ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roeddent yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion, tra bod £168k yn gysylltiedig â staff cyflenwi ar gyfer swyddi gweigion. Gwariodd y gwasanaeth Gwastraff £248k ar weithwyr safle yn y canolfannau ailgylchu. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad D.

8.2 Gwariwyd cyfanswm o £160k ar wasanaethau Ymgynghori yn ystod y cyfnod o fis Hydref i fis Rhagfyr 2021, gyda £12k yn cael ei gyllido gan grantiau neu o ffynonellau allanol. Mae crynodeb llawn o'r gwariant fesul gwasanaeth, gyda manylion ychwanegol am y gwariant, i'w weld yn Atodiad DD.

9. Cyllid Grant Covid19 Llywodraeth Cymru hyd yma

9.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i awdurdodau lleol Cymru ar gyfer costau ychwanegol yn gysylltiedig â Coronafeirws ac i ddigolledu am incwm a gollwyd. Heb y cymorth hwn byddai'r Cyngor yn wynebu gorwariant sylweddol ar alldro. Dengys Tabl 2 i'r Cyngor hawlio £3.418m ar gyfer costau ychwanegol yn deillio o'r pandemig yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae £2.166m wedi'i dalu i'r Cyngor yn barod, sy'n gadael balans o £1.252m fydd yn cael ei dalu yn ystod 2021/22.

Tabl 2 Gwariant yn gysylltiedig â Covid rhwng mis Ebrill a Rhagfyr 2021 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru

	Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	Prydau Ysgol am Ddim	Cyffredinol	Digartref edd	Glanhau Ysgolion	Profi mewn Cartrefi Gofal	Hunan- Ynysu	Plant	Ychwane giad SSP	Cyfanswm
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Hawliwyd	1,199,550	438,209	805,122	156,898	145,283	148,072	354,472	140,810	30,169	3,418,585
Gwrthodwyd	-	-	917	65	-	-	-	-	-	982
Balans Dyledus	1,199,550	438,209	804,205	156,833	145,283	148,072	354,472	140,810	30,169	3,417,603
Talwyd	815,876	209,969	499,184	45,692	99,952	128,627	209,722	140,810	15,516	2,165,348
Balans yn weddill	383,674	228,240	305,021	111,141	45,331	19,445	144,750	-	14,653	1,252,256

9.2 Incwm a Gollwyd oherwydd Cyfyngiadau Covid19 a Gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru

Er bod llacio'r cyfnod clo wedi parhau yn ystod y flwyddyn ariannol newydd, mae incwm y Cyngor wedi cael ei effeithio'n sylweddol, megis cau canolfannau Hamdden a'r effaith ar ffioedd meysydd parcio. Mae risg hefyd o gyfyngiadau pellach i leihau lledaeniad Covid19. Mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am incwm cymwys a gollwyd oherwydd y Coronafeirws. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae'r Cyngor wedi hawlio £0.290m gan Lywodraeth Cymru. Mae crynodeb o'r incwm a ddigolledwyd ac a hawliwyd hyd at 31 Rhagfyr 2021 i'w weld yn Nhabl 3 isod:-

Tabl 3 - Cyllid Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer Incwm Gwasanaethau a gollwyd yn ystod y Pandemig

Crynodeb	Amgueddfeydd £'000	Hamdden £'000	Addysg £'000	Meysydd Parcio £'000	Gwarchod y Cyhoedd £'000	Marchnadoedd a Chlybiau Teithio £'000	Cyfanswm £'000
Hawliwyd	65.00	487.51	-312.40	34.0	13.80	1.80	289.71
Heb ei ganiatáu	0	0	0	0	0	0	0
Balans yn Ddyledus	65.00	487.51	-312.40	34.0	13.80	1.80	289.71
Talwyd	60.40	407.34	-321.00	34.00	11.30	1.10	193.14
Balans yn Weddill	4.60	80.17	8.60	0.00	2.50	0.70	96.57

10 Risgiau Ariannol yn ystod Ail Hanner y Flwyddyn Ariannol

- 10.1** Mae'r ffigyrau a nodir uchod yn seiliedig ar y galw presennol am wasanaethau, fodd bynnag, mae nifer o risgiau a allai effeithio ar y costau wrth symud ymlaen ac mae risg o hyd na fydd y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mor gadarnhaol ac a ddangosir uchod, er bod y risg yn lleihau wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Manylir ar y risgiau isod.
- 10.2** Mae'r Undebau Llafur wedi gwrthod cynnig terfynol o godiad tâl o 1.75% ac maent yn cynnal pleidlais ar weithredu diwydiannol, er nad yw un Undeb wedi derbyn digon o gefnogaeth ar gyfer gweithredu diwydiannol, ac mae'n fwy tebygol y deur i gytundeb ar ddyfarniad cyflog fydd yn agos at y ffigur o 1.75%. Cynhwyswyd digon o gyllid yn y gyllideb ac mewn cronfeydd wrth gefn clustnodedig i gwrdd â chost dyfarniad cyflog o 1.75%, ond bydd unrhyw swm sy'n uwch na'r ffigur hwn yn gostwng y tanwariant a ragwelir, gyda phob 1% ychwanegol yn ychwanegu rhwng £400k a £500k at y costau tâl.
- 10.3** Mae chwyddiant yn cynyddu ac mae'n uwch na'r swm a ganiatwyd wrth osod cyllideb refeniw 2021/22. Mae'r rhan fwyaf o gostau'r Cyngor yn gostau staffio neu'n daliadau cytundebol i gontractwyr a chyflenwyr (gan gynnwys darparwyr ynni), ac mae'r trefniadau hyn yn gwarchod y Cyngor rhag cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd cynnydd mewn chwyddiant. Fodd bynnag, bydd y cynnydd mewn chwyddiant yn cael rhywfaint o effaith ar gostau'r Cyngor yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ariannol.
- 10.4** Mae cyfnod y gaeaf bob amser yn creu ansicrwydd ynglŷn â'r galw am wasanaethau (yn enwedig yn y Gwasanaethau Oedolion), a'r angen i ymateb i gyfnodau o dywydd garw (eira, stormydd, llifogydd). Mae'n anodd rhagweld y cynnydd posib mewn costau oherwydd tywydd y gaeaf, ond mae'r rhan helaeth o'r gaeaf wedi pasio ac mae'r tywydd wedi bod yn eithaf tawel a mwyn ac mae hynny wedi lleihau'r risg. Mae'r risg o dywydd eithafol neu oer yn parhau yn ystod y chwarter olaf ond, unwaith eto, mae'r risg yn lleihau wrth i'r wythnosau fynd rhagddynt ac wrth i ni agosáu at ddiwedd mis Mawrth.
- 10.5** Mae'r tanwariant mewn nifer o wasanaethau wedi codi oherwydd swyddi gwag. Mae rhai ohonynt yn ganlyniad penderfyniadau bwriadol i beidio â phenodi i swyddi gwag yn ystod y cyfnodau clo, ond mae nifer o'r swyddi gwag yn adlewyrchu'r anawsterau cynyddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth benodi staff i rai swyddi. Nid oes gorddarpariaeth yn y cyllidebau staffio, a bydd y gwariant gwirioneddol yn dychwelyd i lefelau'r gyllideb ar ôl llenwi'r swyddi hynny.

- 10.6** Ar hyn o bryd, mae Cronfa Galedi Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnydd mewn costau a cholledion incwm mewn nifer o wasanaethau, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y cymorth hwn yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, bydd effaith yr argyfwng Covid (mwy o alw am wasanaethau, llai o gapasiti a cholledion incwm mewn rhai gwasanaethau) yn cael eu cynnwys wrth baratoi cyllideb 2022/23. Unwaith eto, mae'r ffaith fod y sefyllfa Covid yn gwella wedi lleihau'r risg y bydd costau'n cynyddu yn ystod y chwarter olaf.
- 10.7** Mae'r Gwasanaethau Oedolion yn derbyn cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a defnyddir y cyllid ychwanegol hwn i gefnogi'r lefel bresennol o alw am wasanaethau ac mae'n lleihau'r baich ar y gyllideb graidd. Unwaith eto, mae'r risg ariannol yn 2021/22 yn isel ond, eto, bydd mwy o risg yn 2022/23 os yw'r galw am wasanaethau'n parhau ac nid yw'r grant ar gael yn 2022/23.
- 10.8** Erbyn hyn mae'r Cyngor yn delio ag ansicrwydd ychwanegol a chostau posib yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r trefniadau a'r dyletswyddau Awdurdod Iechyd Porthladd newydd. Nid oes unrhyw sicrwydd o gyllid ar hyn o bryd ac, oherwydd bod angen recriwtio a chreu capasiti ychwanegol, gallai greu pwysau ariannol ychwanegol. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru a CThEM, a'r gobaith yw y gellir sicrhau ymrwymiad ariannol pellach a / neu gytundeb i ddigolledu costau ychwanegol y bydd y Cyngor yn eu hysgwyddo yn ystod ail hanner y flwyddyn.

11 Casgliad

- 11.1** Y rhagolwg cychwynnol ar ddiwedd yr ail chwarter yw y bydd tanwariant o £3.528m yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2022. Disgwylir tanwariant o £2.315m ar gyllidebau gwasanaeth a disgwylir tanwariant o £0.591m ar gyllid corfforaethol hefyd. Disgwylir y bydd y Dreth Gyngor safonol £0.113m yn well na'r gyllideb. Rhagwelir gwarged o £0.509m ar Breimiwm y Dreth Gyngor.
- 11.2** Mae lefel y tanwariant a ragwelir yn gwella sefyllfa ariannol y Cyngor yn sylweddol ac mae'n caniatáu'r Cyngor i gyllido risgiau sy'n esblygu e.e. gwaith atgyweirio yng Nghanolfan Addysg y Bont. Yn ogystal, mae'n caniatáu defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyllido cyfran o raglen gyfalaf 2022/23. Cedwir llygaid ar lefel Balansau Cyffredinol y Cyngor wrth i ni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn sicrhau bod y lefel yn uwch na 5% o'r gyllideb referniw net.

Rhagamcan o Alldro Refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2022 – Chwarter 3

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2021/22 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2021/22 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2021/22 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Q3 Estimated Expenditure to 31 March 2022	Ch3 : Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)	2021/22 Gor/(tan) wariant a ragwelir fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch3 : Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
<u>Dysgu Gydol Oes</u> <u>Lifelong Learning</u>									
Cyllideb Datganoledig Ysgolion <i>Delegated Schools Budget</i>	49,052	34,343	34,343	(0)	0.00%	49,061	0	0.00%	0
Addysg Canolog <i>Central Education</i>	4,602	(1,378)	(1,437)	(59)	4.32%	4,303	(299)	-6.50%	(411)
Diwylliant <i>Culture</i>	1,208	1,090	837	(253)	-23.25%	1,159	(49)	-4.06%	(43)
<u>Gwasanaethau Oedolion</u> <u>Adult Services</u>	27,727	19,027	20,336	1,309	6.88%	27,496	(231)	-0.83%	477
<u>Gwasanaethau Plant</u> <u>Children's Services</u>	11,178	10,307	10,379	90	0.87%	11,005	(193)	1.72%	583
<u>Tai</u> <u>Housing</u>	1,247	1,546	1,507	(39)	-2.54%	1,247	0	0.00%	0
<u>Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo</u> <u>Highways, Waste & Property</u>									
Priffyrdd <i>Highways</i>	6,307	5,828	5,484	(344)	5.91%	6,107	(200)	-3.17%	(128)
Eiddo <i>Property</i>	985	731	633	(98)	-13.37%	990	5	0.51%	5
Gwastraff <i>Waste</i>	8,757	6,280	5,607	(673)	-10.72%	8,197	(560)	-6.39%	(480)

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2021/22 Cyllideb Blynnyddol Annual Budget	2021/22 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2021/22 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Q3 Estimated Expenditure to 31 March 2022	Ch3 : Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)	2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch3 : Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
<u>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd</u> <u>Regulation & Economic Development</u>									
Datblygu Economaidd <i>Economic Development</i>	2,053	1,734	1,582	(152)	-8.77%	2,057	4	0.19%	49
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd <i>Planning and Public Protection</i>	2,247	1,765	1,284	(481)	-27.25%	1,928	(319)	-14.20%	(108)
<u>Trawsnewid</u> <u>Transformation</u>									
Adnoddau Dynol <i>Human Resources</i>	1,379	1,054	1,024	(30)	-2.88%	1,288	(91)	-6.60%	(84)
TGCh <i>ICT</i>	3,200	2,571	2,889	318	12.39%	3,218	18	0.56%	102
Trawsnewid Corfforaethol <i>Corporate Transformation</i>	896	540	488	(52)	-9.64%	761	(135)	-15.06%	(170)
<u>Adnoddau</u> <u>Resources</u>	3,236	2,644	2,582	(62)	2.33%	3,019	(217)	-6.71%	(144)
<u>Busnes y Cyngor</u> <u>Council Business</u>	1,713	1,227	1,162	(65)	-5.27%	1,656	(57)	3.33%	12
<u>Costau Corfforaethol a Democraidd</u> <u>Corporate & Democratic costs</u>	3,010	2,736	2,705	(31)	-1.13%	2,846	(164)	-5.45%	(158)
<u>Rheolaeth Corfforaethol</u> <u>Corporate Management</u>	636	475	450	(25)	-5.22%	609	(27)	-4.25%	(28)
Costau heb gyllideb, na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu drwg ddyledion/lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau <i>Unbudgeted, uncontrollable costs: insurances, pension costs and bad debt write offs/impairment allowances on services' income</i>						200	200	0.00%	200

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2021/22 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	2021/22 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2021/22 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 : Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Q3 Estimated Expenditure to 31 March 2022	Ch3 : Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)	2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over /(Under) spend as a % of Total Budget	Ch3 : Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaethau Total Service Budgets	129,452	92,520	91,873	(647)	-0.70%	127,137	(2,315)	-1.79%	(350)
Ardollau Levies	3,695	3,693	3,693	0	-0.00%	3,695	(0)	-0.05%	(2)
Rhyddhad Trethi Dewisol Discretionary Rate Relief	71	0	0	0	0.00%	71	(0)	0.11%	(1)
Cyllido Cyfalaf Capital Financing	7,482	3,386	3,072	(314)	0.00%	6,947	(536)	-6.97%	(649)
Arian wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill General & Other Contingencies	1,129	1,129	579	(550)	-48.68%	736	(393)	-34.79%	(20)
Cyfraniad CRT y Gwasanaethau Cefnogol Support Services contribution HRA	(700)	0	0	0	0.00%	(700)	0	0.00%	0
Budd-daliadau a Roddwyd Benefits Granted	6,290	22	24	2	9.87%	6,327	38	0.60%	37
Arian Wrth gefn Cyffredinol y Cyngor Council's General Reserves	(300)	0	0	0	0.00%	0	300	100.00%	0
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol Total Corporate Finance	17,668	8,230	7,369	(861)	10.47%	17,077	(591)	-3.34%	(508)
Cyfanswm 2021/22 Total 2021/22	147,120	100,750	99,241	(1,509)	-1.50%	144,214	(2,906)	-1.98%	(858)

Gwasanaeth/Swyddogaeth Service/Function	2021/22 Cyllideb Flynyddol Annual Budget	2021/22 Ch3 Cyllideb hyd yma Q3 Budget Year to Date	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed spend	2021/22 Ch3 Amrywiad Q3 Variance	2021/22 Ch3 Gwir Wariant ac Ymrwymadau Q3 Actual & Committed Spend	Ch3 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2022 Q3 Estimated Expenditure to 31 March 2022	Ch3: Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)	2021/22 Gor/(tan) wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan Projected Over (Under) spend as a % of Total Budget	Ch3 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2022 gor/(tan) wariant Q3 Estimated Outturn 31 March 2022 over/(under)
	£'000	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	%	£'000
<u>Cyllido Funding</u>									
Trethi Annomestig NDR	(23,480)	(18,062)	(18,062)	0	0.00%	(23,480)	0	0.00%	0
Y Dreth Gyngor Council Tax	(40,902)	0	0	0	0.00%	(41,015)	(113)	0.28%	(19)
Premiwm y Dreth Gyngor Council Tax Premium	(1,393)	0	0	0	0.00%	(1,902)	(509)	36.57%	(652)
Grant Cynnal Refeniw Revenue Support Grant	(81,345)	(62,573)	(62,573)	0	0.00%	(81,345)	0	0.00%	0
Cyfanswm Cyllid 2021/22 Total Funding 2021/22	(147,120)	(80,635)	(80,635)	0	0	(147,743)	(623)	-0.42%	(671)
Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido Total outturn, including impact of funding	0	20,115	18,606	(1,509)	-7.50%	(3,528)	(3,528)	-2.40%	(1,529)

Crynodeb o Sefyllfa Aldro y Cyllidebau wrth gefn 2021/22

	Cyllideb	Trosglwyddiadau	Y Gyllideb Ddiwygedig hyd yma	Ymrwymwyd hyd yma	Cyllidebau heb eu hymrwymo hyd yma	Cyllideb Rhagdybiedig Gor / (Tan) Wario
	£	£	£	£	£	£
Cronfeydd wrth gefn cyffredinol	388,928	- 20,360	368,568	7,720	360,848	-300,000
Cyflog a Graddfeydd	150,000	-43,820	106,180	10,230	95,950	-
Cronfeydd wrth gefn clustnodedig	794,500	-140,140	654,360	561,530	92,830	-92,830
Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	1,333,428	-204,320	1,129,108	579,480	549,628	-392,830

Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2021/22

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Dyranriad 2021/22 £	Gwariant 2021/22 £	Gweddill Cyllideb 2021/22 £	Diweddariad ar y Prosiect
Adnoddau	System Rheoli Dogfennau Electronig ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau	Datrysiaid sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau	170,000	0	0	0	Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach.
TG	Mynegai Tir ac Eiddo Lleol (LLPG)	Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor	10,800	0	0	0	Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach.
TG / Trawsnewid	System Rheolaeth Perthynas Cwsmer (CRM)	Prynu a gweithredu system CRM cwsmer	255,000	46,676	0	46,676	Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach.
TG / Adnoddau	Porth Taliadau	Prynu a gweithredu porth taliadau fel y gellir talu drwy'r Ap.	27,000	13,583	0	13,583	Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach.
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwella Gwydnwch y Systemau Cynllunio	Systemau cynllunio awtomatig newydd	118,000	5,687	1,487	4,200	Nid yw'r datblygwr wedi datrys yn llawn y materion sy'n ymwneud â'r fersiwn Gymraeg ar y porth cyhoeddus, adolygu dogfennau a pherfformiad y system. Ar hyn o bryd, bydd y dyddiad 'mynd i fyw' ar 14/03/2022 ond mae'n dibynnu ar ddatrys yr holl faterion, profion llym a'u cymeradwyo gan GSYM. Mae gwaith sy'n gysylltiedig â glanhau cysylltiadau dyblyg o fewn y system yn parhau, gyda chynnydd da yn ddiweddar.

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd	Dyranïad 2021/22	Gwariant 2021/22	Gweddill Cyllideb 2021/22	Diweddariad ar y Prosiect
			£	£	£	£	
Adnoddau	Gwella Systemau Casglu Incwm	Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau casglu incwm newydd (ApMôn ayb) gysylltu i'r system rheoli arian	150,000	36,843	32,898	3,945	Mae'r gyllideb bellach wedi ei hymrwymo'n llawn ac o fewn cyllidebau'r bid. Ailddechreuodd y gwaith gweithredu yn ystod Chwarter 2 2020/21 yn dilyn diwedd cyfnod ffyrlo rhai swyddogion prosiect Capita, ond dim ond yn Chwarter 3 2021 y cododd momentwm. Mae gwaith profi'r ffeil allforio GL newydd y gellid ei wneud o bell bron wedi'i gwblhau ac mae trefniadau mewn lle i gwblhau'r gwaith profi na ellir ei wneud o bell. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, gellir dechrau gweithredu cysoni incwm/eddychweliadau awtomatig, sy'n cynnwys prosesau newydd ar gyfer gwasanaethau a datganiadau banc electronig pwrpasol gan fancwyr yr Awdurdod. Mae gwaith awtomeiddio pellach yn symud ymlaen drwy ddatblygu "AP's" i alluogi diweddariad incwm awtomatig i'r lejer drwy'r system rheoli incwm ar gyfer gwasanaethau mewnol, megis hamdden, addysg a phriffyrdd, ac allanol ar gyfer AGP. Bydd y gwaith gweithredu'n parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd bod Covid19 wedi gohirio gweithredu a gwasanaethau mewnol yn ail-dendro rhai prosesau meddalwedd penodol. Bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl.
Dysgu Gydol Oes	Moderneiddio Prosesau Busnes a Pherfformiad - Addysg	Gweithredu modiwlau nad oedd yn cael eu defnyddio o fewn y system rheoli gwybodaeth ONE	67,000	0	0	0	Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach.
Dysgu Gydol Oes	Moderneiddio Prosesau Busnes a Pherfformiad - Oriol Môn	Gwefan ar gyfer yr Oriol	20,000	11,474	10,910	564	Mae'r gwaith ar y prosiect yma wedi ei gwblhau.
TG / Trawsnewid	Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig	Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol	£70,000 ym mlwyddyn 1 a £50,000 ym mlwyddyn 2	30,280	36,942	-6,662	Prosiect wedi cau. Dim diweddariad pellach. (Gorwariant yma i'w gyllido o danwariant ar y prosiect CRM)

Gwasanaeth	Teitl	Disgrifiad	Swm a Gymeradwywyd £	Dyraniad 2021/22 £	Gwariant 2021/22 £	Gweddill Cyllideb 2021/22 £	Diweddariad ar y Prosiect
Gwarchod y Cyhoedd	Gwella Cysylltiad Digidol o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd	Gweithredu system gwmwl i gofnodi ymweliadau arolygu. Mae'r meddalwedd yn ddatrysiaid Cymru gyfan sydd wedi ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru	£10,000 per year for 4.5 years	45,000	0	45,000	Oherwydd Covid19 a phwysau ar Warchod y Cyhoedd, ni fu unrhyw gapasiti i fwrw ymlaen hyd yma. Mae datblygiadau hefyd ar ran system CRM newydd y Cyngor, gyda Gwasanaeth Iechyd Porthladd newydd a chofrestr Drwyddedu yn ofynnol. Bydd angen i hyn fynd allan i'r farchnad i weld beth sydd ar gael, a sut y bydd yn cyd-fynd yn dda â gofynion datblygiadau newydd ar y gorwel yn ogystal â chyda'r systemau TG corfforaethol. Mae hefyd yn debygol bod bywyd y system bresennol yn dod i ben yn y blynyddoedd i ddod.
Cyfanswm			982,800	189,543	100,708	88,835	

Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Rhagyr 2021

Gwasanaeth	Swm £	Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas ddefnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol)	Parhaol / Dros Dro	Pwrpas
Economaid ac Adfywio	17,966	Grant	Dros Dro	Methu recriwio Swyddog lechyd yr Amgylchedd cymwysedig ar gyfer samlo bwyd
	49,221	Grant	Dros Dro	Capasiti
	3,203	Grant	Dros Dro	Darparu cymorth a hyfforddiant i Swyddogion lechyd yr Amgylchedd sy'n delio â thystysgrif iechyd allforio
	70,390			
Ysgolion	11,958	Craidd	Dros Dro	Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol
	113	Craidd	Dros Dro	Athrawon llanw ar gyfer tasg benodol
	12,071			
Gwastraff	10,705	Incwm Tanysgrifiadau Gwastraff Gwyrdd	Dros Dro	Tasgau ychwanegol eu hangen yn y tymor byr
	247,833	Cyllideb Graidd Benodol	Dros Dro	Tasgau ychwanegol eu hangen yn y tymor byr
	6,777	Hawliwyd o'r Gronfa Caledi	Dros Dro	Tasgau ychwanegol eu hangen yn y tymor byr
	265,315			
Eiddo	2,379	Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd	Dros Dro	Prisio ar gyfer cyfrifon 2020/21
	2,379			
Gwasanaethau Plant	217,689	Cyllideb Craidd / Cronfa Wrth Gefn Staff Asiantaeth	Dros Dro	I lenwi swyddi wag
	217,689			
Gwasanaethau Oedolion	28,078	Cyllideb Graidd	Dros Dro	Project DOLS
	15,139	Grant	Dros Dro	Cyflenwi gwaith ychwanegol am Covid a swyddi gwag
	39,339	Cyllideb Graidd	Dros Dro	I lenwi swydd wag
	82,556			
Adnoddau	38,210	Grant	Dros Dro	Maint y gwaith
	49,350	Cyfraniad Allanol	Dros Dro	Secondiad Staff
	64,746	Grant	Dros Dro	Ôl-groniad gwaith dreth gyngor oherwydd y pandemig
	30,518	Grant	Dros Dro	Ôl-groniad gwaith dreth gyngor oherwydd y pandemig
	9,053	Grant	Dros Dro	Ôl-groniad gwaith dreth gyngor oherwydd y pandemig
	130,046			
Trawsnewid	11,339	Cyllideb Staffio nas Ddefnyddiwyd	Dros Dro	Mamolaeth
	16,829	Cyllideb Staffio nas Ddefnyddiwyd	Dros Dro	Secondiad staff i gefnogi Prosiect HWB
	6,456	Cyllideb Staffio nas Ddefnyddiwyd	Dros Dro	Swydd Technegydd GIS Wag - angen i gynnal Safon Ansawdd Data
	34,624			
Cyfanswm	876,901			

ATODIAD DD

Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch3 2021/22

Gwasanaeth	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Cyfanswm 2021/22
	£	£	£	£
Addysg Canolog	0	2,746	1,616	4,362
Diwylliant	58,100	6,365	2,110	66,575
Economaidd ac Adfywio	36,124	37,440	49,963	123,527
Eiddo	0	0	0	0
Priffyrdd	16,000	4,200	44,060	64,260
Ysgolion	3,135	1,050	250	4,435
Gwastraff	12,137	8,679	10,659	31,475
CRT	(10,250)	1,034	1,964	(7,252)
Tai	0	0	1,700	1,700
Corfforaethol a Democrataidd	0	0	0	0
Gwasanaethau Oedolion	3,451	0	350	3,801
Gwasanaethau Plant	0	0	2,040	2,040
Corfforaethol	0	0	0	0
Trawsnewid	4,260	2,640	13,601	20,501
Busnes y Cyngor	0	7,130	17,029	24,159
Adnoddau	9,565	9,025	14,750	33,340
Cyfanswm	132,522	80,309	160,092	372,923
Cyllidwyd gan:				
Cyllideb Graidd	65,648	58,235	147,748	271,631
Grant	65,495	15,548	7,774	88,817
Cyfraniad Allanol	1,379	6,526	4,570	12,475
Cronfeydd Wrth Gefn	0	0	0	0
Cyfanswm	132,522	80,309	160,092	372,923

